**Memorandwm Esboniadol  Orchymyn Iechyd Anifeiliaid (Ffioedd Amrywiol) (Diwygio a Dirymu) (Cymru) 2024**

Paratowyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan Swyddfa'r Prif Swyddog Milfeddygol ac fe’i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â’r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1

**Datganiad Ysgrifennydd y Cabinet**

Yn fy marn i, mae’r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Iechyd Anifeiliaid (Ffioedd Amrywiol) (Diwygio a Dirymu) (Cymru) 2024. Rwy'n fodlon bod y manteision yn cyfiawnhau’r costau tebygol.

**Huw Irranca-Davies AS**
**Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs**

**8 Tachwedd 2024**

**RHAN 1**

## 1. Disgrifiad

I. Mae'r Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion (APHA) yn asiantaeth weithredol o dan Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig, ac mae hefyd yn gweithio ar ran Llywodraeth yr Alban a Llywodraeth Cymru i ddarparu ystod eang o wasanaethau ar gyfer ystod eang o ddefnyddwyr terfynol. Mae'n briodol ystyried codi ffi ar fusnesau sy'n elwa ar wasanaeth a ddarperir gan APHA i adennill costau llawn darparu'r gwasanaeth, yn hytrach na dibynnu ar y trethdalwr i dalu amdano. Ar hyn o bryd, mae APHA yn codi ffi ar ddefnyddwyr terfynol am nifer o wasanaethau, ond nid yw'r ffioedd am rai gwasanaethau yn adlewyrchu costau llawn darparu'r gwasanaethau hynny.

II. Mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio Gorchymyn Crynoadau Anifeiliaid (Ffioedd) (Cymru) 2018 (O.S. 2018/645) (Cy. 119) ("y Gorchymyn Crynoadau Anifeiliaid"). Mae'n cynyddu'r ffioedd sy'n daladwy i Weinidogion Cymru o dan y Gorchymyn Crynoadau Anifeiliaid am wasanaethau a ddarperir gan yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion.

III. Mae hefyd yn dirymu Gorchymyn Clefydau Anifeiliaid (Ffioedd ar gyfer Profi Diheintyddion) 1991 (O.S 1991/1168) ("Gorchymyn 1991") o ran Cymru.

## 2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

IV. Dim

## 3. Y cefndir deddfwriaethol

V. Mae'r Gorchymyn yn cael ei wneud o dan adran 84(1) o'r Ddeddf Iechyd Anifeiliaid ("Deddf 1981"). Cafodd swyddogaethau gwneud Offeryn Statudol dan adran 84(1) o Ddeddf 1981 eu rhoi i "y Gweinidogion". O dan adran 86(1)(c) o Ddeddf 1981, diffiniwyd "y Gweinidogion" mewn perthynas â Phrydain Fawr gyfan i olygu'r Gweinidog Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Bwyd, Ysgrifennydd Gwladol yr Alban ac Ysgrifennydd Gwladol Cymru, gan weithredu ar y cyd.

VI. Cafodd holl swyddogaethau Gweinidog y Goron o dan adran 84(1) o Ddeddf 1981, i'r graddau y gellir eu harfer mewn perthynas â Chymru gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru, eu trosglwyddo i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ("y Cynulliad Cenedlaethol") yn rhinwedd O.S.1999/672. Trosglwyddwyd unrhyw swyddogaethau eraill gan Ysgrifennydd Gwladol yr Alban ac Ysgrifennydd Gwladol Cymru o dan adran 84(1) o Ddeddf 1981 i'r Gweinidog Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Bwyd gan OS 1999/3141. Yn ddiweddarach trosglwyddwyd swyddogaethau'r Gweinidog Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Bwyd o

dan adran 84(1) o Ddeddf 1981 i'r Ysgrifennydd Gwladol gan O.S.2002/794. Cafodd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol, i'r graddau y gellir eu harfer mewn perthynas â Chymru, yna eu trosglwyddo i'r Cynulliad Cenedlaethol gan S.I.2004/3044. Yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32), a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, fe'u trosglwyddwyd i Weinidogion Cymru.

VII. Yn rhinwedd paragraff 7 o Ran 2 o Atodlen 3 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, caiff Gweinidogion Cymru arfer y pwerau yn adran 84(1) o Ddeddf 1981 heb y gofyniad am gymeradwyaeth y Trysorlys.

VIII. Gwneir y Gorchymyn hwn o dan y weithdrefn penderfyniad negyddol.

## 4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

IX. Mae swyddogion o bob un o dair Gweinyddiaeth Prydain, mewn cydweithrediad ag APHA, wedi bod yn gweithio ar brosiect i adolygu ffioedd presennol APHA.

X. Diben y Gorchymyn hwn yw darparu ar gyfer adolygu ffioedd sy'n daladwy mewn perthynas â gwasanaethau statudol a ddarperir gan APHA ar ran Gweinidogion Cymru, er mwyn adennill y gost lawn.

XI. Mae APHA yn darparu ystod eang o wasanaethau ar gyfer ystod eang o ddefnyddwyr terfynol. Mae'r rheini'n cynnwys hwyluso masnach mewn anifeiliaid a chynhyrchion anifeiliaid trwy ystod o wasanaethau archwilio ac ardystio; cymeradwyo ac archwilio safleoedd sy'n trin sgil-gynhyrchion anifeiliaid a thrwyddedu digwyddiadau lle caiff anifeiliaid eu crynhoi megis marchnadoedd a sioeau. Mae busnesau sy'n defnyddio'r gwasanaethau yn amrywio o gwmnïau mawr i fusnesau bach a microfusnesau.

XII. Mae APHA yn asiantaeth weithredol o Defra ond Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am ariannu'r gwaith o roi ei pholisïau ar waith yng Nghymru. Canlyniad peidio â chyflwyno'r newidiadau hyn fyddai bwlch yn y darpariaethau cyllido, y bydd Llywodraeth Cymru yn debygol o fod yn atebol amdano.

XIII. Mae data penodol i Gymru wedi cael ei gyflwyno a'i ddefnyddio i amcangyfrif yr effaith ar fusnesau yng Nghymru.

XIV. Yn ogystal, mae'r offeryn hwn yn dirymu Gorchymyn Clefydau Anifeiliaid (Ffioedd ar gyfer Profi Diheintyddion) 1991 ("Gorchymyn Ffioedd 1991"). Mae Gorchymyn Ffioedd '1991' yn nodi'r ffioedd sy'n daladwy gan berson sydd wedi cyflwyno diheintydd i'w brofi yn unol ag erthygl 7 o Orchymyn Clefydau Anifeiliaid (Diheintyddion Cymeradwy) 1978. Cafodd Gorchymyn 1978 hwnnw ei ddirymu gan Orchymyn Clefydau Anifeiliaid (Diheintyddion Cymeradwy) (Cymru) 2007. Mae'r cynllun cymeradwyo presennol yn cael ei redeg gan APHA a chynhelir y profion yn eu labordy yn Lloegr ar ran holl weinyddiaethau Prydain. Ni chodir ffioedd ar wahân

am brofion a gynhelir ar ran Gweinidogion Cymru at ddiben cymeradwyo diheintydd yng Nghymru. Dim ond y ffioedd sy'n daladwy ar gyfer profi diheintydd i'w gymeradwyo yn Lloegr sy'n cael eu codi, a defnyddir y profion hynny hefyd i gymeradwyo'r diheintydd mewn perthynas â Chymru. Nid yw Gorchymyn Ffioedd 1991 bellach yn cyflawni pwrpas ac felly caiff ei ddirymu.

## 5. Ymgynghori

XV. Lansiwyd ymgynghoriad cyhoeddus ar 26 Hydref 2015. Roedd yr ymgynghoriad yn gofyn am farn ar gynigion i gyflwyno ffioedd ar gyfer gwasanaethau a ddarperir gan APHA er mwyn adennill costau llawn. Roedd y cynigion yn cynnwys cyflwyno ffioedd fesul cam i adennill y costau y mae APHA yn eu hysgwyddo wrth drwyddedu crynoadau anifeiliaid, gan gynyddu hyd yr adenillir costau llawn.

XVI. Cyflwynodd Gorchymyn Crynoadau Anifeiliaid (Ffioedd) (Cymru) 2018 gynnydd fesul cam i adennill y costau llawn. Diwygiwyd Gorchymyn 2018 yn ddiweddarach gan Orchymyn Iechyd Anifeiliaid (Compartmentau Dofednod a Chrynoadau Anifeiliaid) (Ffioedd) (Cymru) (Diwygio) 2022 i gynnal ffioedd ar lefel a fyddai'n sicrhau bod costau llawn yn cael eu hadennill. Mae'r Gorchymyn hwn yn cyflwyno newidiadau pellach i ffioedd i sicrhau yr adenillir costau llawn.

XVII. Cyn gwneud Gorchmynion sy'n cynyddu ffioedd i adennill costau llawn, caiff rhanddeiliaid eu hysbysu am y cynnig i newid ffioedd. Cyhoeddir gwybodaeth am y newidiadau i'r ffioedd ar GOV.UK. Mewn perthynas â'r Gorchymyn hwn, hysbyswyd rhanddeiliaid am y newidiadau arfaethedig ar 7 Tachwedd trwy e-bost a chyhoeddi gwybodaeth ar Charges and fees for services provided by APHA - GOV.UK.

## RHAN 2 – ASESIAD EFFAITH RHEOLEIDDIOL

### 6. Yr opsiynau

I. Rydym yn ystyried dau opsiwn:

- Opsiwn 1- Cadw'r ffioedd presennol.
- Opsiwn 2 - Cynyddu ffioedd er mwyn adennill costau'n llawn.

### 7. Costau a manteision

**Opsiwn 1. Cadw'r ffioedd presennol**

Dyma'r opsiwn ar gyfer cadw pethau fel y maent. Canlyniad peidio â chyflwyno'r newidiadau hyn fyddai bwlch yn y darpariaethau cyllido, y bydd Llywodraeth Cymru yn debygol o fod yn atebol amdano.

**Opsiwn 2. Cynyddu ffioedd i adennill y costau'n llawn**

Bydd y busnesau a'r sefydliadau sy'n defnyddio'r gwasanaethau APHA perthnasol yn wynebu costau uwch yn sgil gorfod talu ffioedd uwch o fis Rhagfyr 2024. Fel y dangosir yn y tabl isod, bydd ffioedd yn cynyddu rhwng 9% a 92% gan ddibynnu ar y gweithgaredd.

Cyfrifwyd y ffioedd diwygiedig fel a ganlyn:

II. Gorchymyn Crynoadau Anifeiliaid – AGO (Cynnydd yn y ffi yn unig): Mae'r ffioedd wedi'u diwygio ar sail y rhagdybiaeth nad yw'r mapiau proses wedi'u newid, ac eithrio bod ambell ymweliad wedi newid o fod yn ymweliad gan Swyddog Iechyd Anifeiliaid (AHO) i fod yn ymweliad gan Swyddog Milfeddygol (VO). Mae hyn yn unol â newidiadau go iawn o fewn yr asiantaeth.

III. Mae'r ffioedd wedi'u cyfrifo gan ddefnyddio Cyfraddau Codi Tâl (CoRs) 2024-25 a chostau anfonebu diweddaraf yr SSCL.

Ym mlwyddyn ariannol 2023-24 anfonwyd 254 o anfonebau yn ymwneud â Chrynoadau Anifeiliaid. Roedd 27% o'r 254 yn ymwneud â Chrynoadau Anifeiliaid yng Nghymru. Mae'n anodd rhagweld pa wasanaethau fydd yn cael eu defnyddio yn y dyfodol a pha mor aml y caiff y gwasanaethau hynny eu defnyddio. Ar hyn o bryd nid yw APHA yn adennill ei chostau'n llawn. Bydd y cynnydd hwn yn y ffioedd yn caniatáu hynny. Cyfanswm yr incwm yn 2023 o ran Cymru oedd £19,986. Fodd bynnag, o ragdybio y bydd nifer a natur y crynoadau yn y blynyddoedd i ddod yr un fath ag yn 2023-24, mae hyn yn awgrymu cynnydd cyfanredol o ryw £2,850 y flwyddyn yn y costau yng Nghymru.

IV. Tabl yn dangos y ffioedd adennill costau llawn arfaethedig (i'w gweithredu o fis Rhagfyr 2024) o'u cymharu â'r ffioedd presennol.

Tabl 1 - Ffioedd y Gorchymyn Crynoadau Anifeiliaid

| Gweithgaredd | Ffioedd presennol | Ffioedd Arfaethedig 2024 | % Cyn / (Gost) Arfaethedig /Presennol |
|---|---|---|---|
| **Mangreoedd gwerthu a chanolfannau casglu anifeiliaid -** | | | |
| Cais i roi neu i newid trwydded ar gyfer mangre werthu neu ganolfan gasglu pan fo arolygydd milfeddygol yn asesu bod y fangre honno yn peri risg isel o ran clefydau. Mae'r ffi hon yn cynnwys hyd at 90 munud o amser yr arolygydd. | £ 379.00 | £ 433.00 | 14% |
| Cais i roi neu i newid trwydded ar gyfer mangre werthu neu ganolfan gasglu pan fo arolygydd milfeddygol yn asesu bod y fangre honno yn peri mwy na risg isel o ran clefydau. Mae'r ffi hon yn cynnwys hyd at 2 x 90 munud o amser yr arolygydd. | £ 685.00 | £ 780.00 | 14% |
| Ffi adnewyddu trwydded flynyddol ar gyfer mangre a ddefnyddir ar gyfer gwerthu anifeiliaid neu sydd i'w defnyddio fel canolfan gasglu, pan fo arolygydd milfeddygol yn asesu bod y fangre honno yn peri risg isel o ran clefydau, a dim ond un ymweliad arolygu oedd ei angen i benderfynu ar ei hadnewyddu. Mae'r ffi hon yn cynnwys hyd at 75 munud o amser yr arolygydd. | £ 340.00 | £ 387.00 | 14% |
| Ffi adnewyddu trwydded flynyddol ar gyfer mangre a ddefnyddir ar gyfer gwerthu anifeiliaid neu sydd i'w defnyddio fel canolfan gasglu, pan fo arolygydd milfeddygol yn asesu bod y fangre honno yn peri mwy na risg isel o ran clefydau, a dim ond un ymweliad arolygu oedd ei angen i benderfynu ar ei hadnewyddu. Mae'r ffi hon yn cynnwys hyd at 2 x 75 munud o amser yr arolygydd | £ 486.00 | £ 550.00 | 13% |
| **Safleoedd ar gyfer sioeau neu arddangosfeydd -** | | | |
| Cais am drwydded i drefnu sioeau neu arddangosfeydd mewn mangre y mae arolygydd milfeddygol yn asesu ei bod yn peri risg isel o ran clefydau. Mae'r ffi hon yn cynnwys hyd at 60 munud o amser yr arolygydd. | £ 236.00 | £ 283.00 | 20% |
| Cais am drwydded i drefnu sioeau neu arddangosfeydd mewn mangre y mae arolygydd milfeddygol yn asesu ei bod yn peri mwy na risg isel o ran clefydau. Mae'r ffi hon yn cynnwys hyd at 90 munud o amser yr arolygydd. | £ 408.00 | £ 467.00 | 14% |
| Adnewyddu trwydded flynyddol mangre sioeau neu arddangosfeydd pan fo arolygydd milfeddygol yn asesu nad oes angen ymweliad arolygu. | £ 168.00 | £ 201.00 | 20% |
| Adnewyddu trwydded flynyddol mangre sioeau neu arddangosfeydd pan fo arolygydd milfeddygol yn asesu bod angen ymweliad arolygu sylfaenol. Mae'r ffi hon yn cynnwys hyd at 60 munud o amser yr arolygydd. | £ 171.00 | £ 329.00 | 92% |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Adnewyddu trwydded flynyddol mangre sioeau neu arddangosfeydd pan fo arolygydd milfeddygol yn asesu bod mwy nag ymweliad arolygu sylfaenol yn ofynnol. Mae'r ffi hon yn cynnwys hyd at 60 munud o amser yr arolygydd. | £ 229.00 | £ 329.00 | 44% |
| **Ffioedd ychwanegol i'w talu am drwyddedu mangreoedd** | | | |
| Ymweliadau Milfeddygol Ychwanegol er mwyn ystyried cais am ymweliad dilynol yn sgil peidio â chydymffurfio, sy'n cynnwys hyd at 75 munud o amser arolygydd milfeddygol ar gyfer ymweliad o'r fath/ymweliad milfeddygol at ddiben ystyried cais am newid gweithredol yn ystod y flwyddyn, sy'n cynnwys hyd at 75 munud o amser arolygydd milfeddygol ar gyfer ymweliad o'r fath | £ 318.00 | £ 362.00 | 14% |
| Tâl atodol am unrhyw ymweliad pan fo'r amser arolygu'r milfeddyg yn hwy na'r amser penodedig a ddarperir yn yr Atodlen hon. | £ 22.00 | £ 24.00 | 9% |
| Yr amser a dreulir gan arolygydd milfeddygol yn teithio i'r fangre drwyddedig, neu'r fangre y bwriedir ei thrwyddedu, ac oddi yno, at ddiben gweithgareddau trwyddedu nad ydynt wedi eu heithrio rhag ffioedd o dan erthygl 3(4) o'r Gorchymyn hwn. | £ 22.00 | £ 24.00 | 9% |

**Manteision**

I. Rhaid i'r Llywodraeth adennill costau lle bynnag y bo modd er mwyn osgoi croesgymorthdalu gan y trethdalwr cyffredinol. Nid yw rhoi'r gorau i ddarparu'r gwasanaethau'n gyfan gwbl fel ffordd o osgoi'r angen i godi ffioedd yn cael ei ystyried yn opsiwn oherwydd y risg i iechyd anifeiliaid a phobl.

II. Mae cyllid ar gyfer cyflwyno polisïau iechyd a lles anifeiliaid yn destun pwysau sylweddol. Os bydd lefelau gwariant y llywodraeth yn gostwng, mae risg y gall gwasanaethau gael eu peryglu, gan beri risg i iechyd pobl neu anifeiliaid. Mae cyflwyno ffioedd sy'n talu cost darparu'r gwasanaeth yn sicrhau y gellir parhau i ddarparu gwasanaethau.

**Risgiau**

- Llai o alw am y gwasanaeth os bydd rhai sectorau'r farchnad yn dod yn amhroffidiol
- Gall gynyddu'r gost i'r farchnad ddomestig a mewnforwyr
- Cynyddu'r risg o ddiffyg cydymffurfiaeth.

**8. Asesu'r Gystadleuaeth**

| Prawf hidlo'r gystadleuaeth | |
|---|---|
| **Cwestiwn** | **Ateb cadarnhaol neu negyddol** |
| **C1**: Yn y farchnad/marchnadoedd y mae'r rheoliad newydd yn effeithio arni/arnynt, a oes gan unrhyw gwmni fwy na 10% o gyfran y farchnad? | Nac oes |
| **C2**: Yn y farchnad/marchnadoedd y mae'r rheoliad newydd yn effeithio arni/arnynt, a oes gan unrhyw gwmni fwy na 20% o gyfran y farchnad? | Nac oes |
| **C3**: Yn y farchnad/marchnadoedd y mae'r rheoliad newydd yn effeithio arni/arnynt, a oes gan y tri chwmni mwyaf gyda'i gilydd o leiaf 50% o gyfran y farchnad | Nac oes |
| **C4**: A fyddai costau'r rheoliad yn effeithio ar rai cwmnïau yn sylweddol fwy nag eraill? | Na fyddai |
| **C5**: A yw'r rheoliad yn debygol o effeithio ar strwythur y farchnad, gan newid nifer neu faint y busnesau/sefydliadau? | Nac ydy |
| **C6**: A fyddai'r rheoliad yn arwain at gostau sefydlu uwch i gyflenwyr newydd neu ddarpar gyflenwyr nad oes gofyn i gyflenwyr presennol eu talu? | Na fyddai |
| **C7**: A fyddai'r rheoliad yn arwain at gostau parhaus uwch i gyflenwyr newydd neu ddarpar gyflenwyr nad oes gofyn i gyflenwyr presennol eu talu? | Na fyddai |
| **C8**: A yw newid technolegol cyflym yn un o nodweddion y sector? | Nac ydy |
| **C9**: A fyddai'r rheoliad yn cyfyngu ar allu cyflenwyr i ddewis pris, ansawdd neu leoliad eu cynhyrchion neu'r amrywiaeth o gynhyrchion a gynigir ganddynt? | Na fyddai |

## 9. Adolygu ar ôl gweithredu

Mae'r adolygiad o daliadau APHA am wasanaethau yn faes gwaith parhaus. Mae swyddogion wedi gweithio gydag APHA i adolygu a newid taliadau, lle bo angen, ers cyflwyno'r Prosiect Codi Tâl gyntaf yn 2012. Cafodd y prosiect ei ohirio rhwng 2019 a 2021 yn sgil Ymadael â'r UE a Covid. Ers 2021 mae'r prosiect bellach wedi'i ddatblygu fel sawl ffrwd waith ar wahân.